

Atodiad 4:

Cynllun Codi Tâl Cronfeydd Dŵr

Cynnwys

Negeseuon allweddol.....	2
Cynigion codi tâl	2
Dadansoddiad manwl	2
Tâl cofrestru diwygiedig.....	2
Ymchwilio i gronfeydd dŵr posibl.....	3
Rhif cofrestru	3
Dynodiad risg.....	3
Nifer y cronfeydd dŵr sy'n cael eu hadeiladu.....	3
Diwygiadau i'r wybodaeth gofrestredig	3
Hysbysiadau.....	4
Cais i adolygu dynodiad risg.....	4
Hysbysiad o gyforgronfa ddŵr fawr a adawyd	5
Hysbysiad o derfynu cronfa ddŵr.....	5
Rhoi gwybod am aildddefnyddio cronfa ddŵr a adawyd	5
Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9	6

Negeseuon allweddol

Mae CNC yn cynnig diwygio ein tâl presennol ar gyfer cofrestru a dynodi risg ar gyfer cyforgronfeydd dŵr mawr i adlewyrchu lefel fwy cywir o weithgarwch sydd ei hangen, ac i gynnwys ein hymchwiliad i gronfeydd dŵr anghofrestredig.

Cyflwynwyd ein cynllun codi tâl presennol yn 2017 gydag un tâl cofrestru o £510 nad yw wedi cynyddu ers hynny.

Mae CNC yn cynnig cyflwyno taliadau newydd ar gyfer gweithgareddau unigol, cyfyngedig o ran amser, y mae angen i ni eu hysbysu a'u prosesu, ond na chodir tâl amdanynt ar hyn o bryd.

Nid yw ein taliadau cofrestru yn cynnwys y costau yr awn iddynt sy'n gysylltiedig â gorfodi.

Cynigion codi tâl

Cydymffurfedd cronfeydd dŵr	2023/24	2022/23
Math o weithgaredd	Tâl arfaethedig	Tâl cyfredol
Cofrestru cronfa ddŵr newydd	£757	£510
Adolygiad o ddynodiad risg	£860	Dim tâl
Hysbysiad o gyforgronfa ddŵr fawr a adawyd	£318	Dim tâl
Hysbysiad o aildefnyddio cyforgronfa ddŵr fawr	£255	Dim tâl
Hysbysiad o derfynu cyforgronfa ddŵr fawr	£191	Dim tâl

Dadansoddiad manwl

Tâl cofrestru diwygiedig

Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn gosod dyletswydd ar ymgymerydd cronfeydd dŵr i gofrestru eu cronfa ddŵr ac i ddarparu gwybodaeth benodol.

Mae gennym ddyletswydd i sefydlu a chynnal cofrestr o gyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru a, lle'r ydym yn meddwl y gallai bywyd dynol gael ei beryglu pe bai gollyngiad heb ei reoli, i ddynodi cronfa ddŵr yn 'risg uchel'. Mae sawl cam i gofrestru:

Ymchwilio i gronfeydd dŵr posibl

Er mwyn cadw cofrestr gywir, rydym yn ceisio nodi cyforgronfeydd dŵr mawr nad ydynt wedi'u cofrestru ond y credwn y gallent fod angen eu cofrestru. Mae hwn yn waith pwysig – ni allwn ddeall a gweithredu ar y perygl llifogydd a ddelir gan y cronfeydd dŵr hyn oni bai ein bod yn gwybod amdanynt yn gyntaf.

Mae CNC yn cynnig bod costau'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys fel elfen ychwanegol o'r tâl Cofrestru a Dynodi.

Rhif cofrestru

Mae gan ymgymerydd dyletswydd i gofrestru eu cronfa ddŵr ac i ddarparu gwybodaeth benodol. Pan fyddwn yn derbyn cofrestriad, byddwn yn gwirio dilysrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd a, lle mae gwybodaeth ar goll neu'n aneglur efallai y bydd yn rhaid i ni ofyn amdani.

Cyflwynwyd y cynllun codi tâl presennol yn 2017, gyda thaliadau'n cael eu hepgor am y cyfnod cychwynnol o chwe mis.

Dynodiad risg

Ar ôl cofrestru, mae gennym dyletswydd i ystyried a chadarnhau dynodiad risg y gronfa ddŵr ac i hysbysu'r ymgymerydd o hyn.

Nifer y cronfeydd dŵr sy'n cael eu hadeiladu

Rhaid rhoi gwybod i ni am adeiladu cyforgronfa ddŵr fawr o leiaf 28 niwrnod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Mae'r hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ragnodedig debyg i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob cronfa ddŵr.

Mae CNC yn cynnig codi'r un tâl Cofrestru a Dynodiad Risg ar gyfer cronfeydd dŵr sy'n cael eu hadeiladu.

Diwygiadau i'r wybodaeth gofrestredig

Mae gan ymgymerydd dyletswydd gyfreithiol i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau unwaith y bydd y gronfa ddŵr wedi'i chofrestru a'r holl wybodaeth ragnodedig wedi'i darparu. Nid yw CNC yn cynnig codi tâl ar wahân am newidiadau i wybodaeth gofrestredig.

Mewn amgylchiadau lle mae gwybodaeth ragnodedig wedi'i newid ond heb ei hysbysu i ni gan yr ymgymerydd, efallai y byddwn yn sicrhau'r wybodaeth honno trwy hysbysiad statudol ac efallai y byddwn yn ceisio adennill y gost hon fesul achos.

Math o weithgaredd	Tâl arfaethedig	Tâl cyfredol
Cofrestru cronfa ddŵr newydd	£757	£510

Hysbysiadau

Bydd rhai hysbysiadau gan ymgwymerwyr yn ysgogi gweithgarwch gennym ni. Nid yw cost hyn yn cael ei adennill ar hyn o bryd. Mae'r gweithgareddau hyn yn ddigwyddiadau penodol â chyfyngiad amser, yn arbennig cais am y canlynol:

- adolygiad o ddynodiad risg
- hysbysiad gadael
- aildefnyddio cronfa ddŵr wedi'i gadael
- terfynu cyforgronfeydd dŵr mawr.

Cais i adolygu dynodiad risg

Mae'r tâl cofrestru presennol yn cynnwys cost weinyddol ar gyfer darparu dynodiad risg cyntaf. Fel arfer caiff ein dynodiadau risg eu hadolygu bob chwe blynedd ar gyfer pob cronfa ddŵr, a chaiff cost hyn ei hadennill drwy ein Tâl Monitro Cydymffurfedd Blynyddol.

Gall ymgwymerwr ofyn am adolygiad dynodiad risg ar unrhyw adeg. Mae CNC yn cynnig codi tâl newydd i dalu ein costau ar gyfer adolygiad o'r fath fel gweithgaredd penodol. Nid yw ein tâl yn cynnwys creu na darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi ein hadolygiad, er enghraifft mapiau llifogydd. Yr ymgwymerwr fydd yn talu'r gost o gynhyrchu'r dystiolaeth.

Mae ein gweithgaredd yn seiliedig ar adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgwymerwr hyd yn oed os yw hyn yn annigonol neu os nad yw'n arwain at newid dynodiad. Byddwn yn darparu Dynodiad Dros Dro yn seiliedig yn unig ar yr wybodaeth sydd gennym eisoes neu a ddarperir gan yr ymgwymerwr.

Efallai y bydd amgylchiadau lle gallai gweithgaredd ychwanegol fod yn ddefnyddiol wrth benderfynu ar y dynodiad priodol, er enghraifft ymweliad safle neu astudiaeth gennym ni neu ein hymgyngorydd. Os credwn fod hyn yn angenrheidiol, byddwn yn nodi amser y gweithgaredd, y deunyddiau, a chost hyn ar gyfer yr ymgwymerwr. Os byddant yn dewis bwrw ymlaen â'r elfen hon o'n hadolygiad, byddwn yn anfonebu'r gost ychwanegol a bydd y gweithgaredd ychwanegol yn cael ei gynnal yn dilyn taliad llawn. Os na fydd yr ymgwymerwr yn cytuno ac yn talu am y gweithgaredd ychwanegol, byddwn yn parhau â'n hadolygiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gawsom.

Math o weithgaredd	Tâl arfaethedig	Tâl cyfredol
Adolygiad o ddynodiad risg	£860	Dim tâl

Hysbysiad o gyforgronfa ddŵr fawr a adawyd

Mae cronfa ddŵr a adawyd yn un sydd wedi'i newid fel na all lenwi â dŵr i lefel sy'n peri risg. Mae hwn yn weithgaredd a reolir gan adran 14 Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Rhaid i ymgwymerwr sy'n dymuno gadael ei gronfa ddŵr benodi peiriannydd i gynhyrchu adroddiad, cwblhau'r gwaith angenrheidiol ac ardystio bod y gadawiad wedi'i gwblhau. Rhaid inni dderbyn copi o'r adroddiad a'r dystysgrif cyn y gallwn ddiwygio'r gofrestr o gyforgronfeydd dŵr mawr. Rydym hefyd yn monitro cwblhau unrhyw fesurau i'w cymryd er budd diogelwch.

Mewn amgylchiadau pan fyddwn yn dod yn ymwybodol bod cronfa ddŵr wedi'i gadael heb roi gwybod i ni, byddwn yn ceisio adennill y tâl hysbysu yn ogystal ag unrhyw gostau gorfodi a dynnir gennym.

Math o weithgaredd	Tâl arfaethedig	Tâl cyfredol
Hysbysiad o gyforgronfa ddŵr fawr a adawyd	£318	Dim tâl

Hysbysiad o derfynu cronfa ddŵr

Pan fydd ymgwymerwr yn dymuno terfynu (datgomisiynu) cyforgronfa ddŵr fawr, mae hwn yn weithgaredd rheoledig o dan adran 13 Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Rhaid iddynt benodi peiriannydd i ddylunio a goruchwyllo'r newid, ac i ddarparu tystysgrif.

Rhaid i ni gael ein hysbysu am y penodiad a derbyn copi o'r dystysgrif. Ar ôl derbyn y dystysgrif, rydym yn tynnu'r gronfa ddŵr oddi ar y gofrestr gyhoeddus.

Math o weithgaredd	Tâl arfaethedig	Tâl cyfredol
Hysbysiad o derfynu cyforgronfa ddŵr fawr	£191	Dim tâl

Rhoi gwybod am aildefnyddio cronfa ddŵr a adawyd

Cyn y gellir dod â chronfa ddŵr segur yn ôl i ddefnydd, rhaid iddi gael ei harchwilio gan Beiriannydd Adeiladu a rhoi Tystysgrif Ragarweiniol cyn ei hail-lenwi.

Byddwn yn adennill cost y gwiriadau y mae angen i ni eu gwneud. Nid ydym wedi cynnwys gwiriadau cydymffurfio ar unrhyw fesurau i'w dilyn er budd diogelwch sy'n ofynnol cyn cyhoeddi Tystysgrif Derfynol; bydd hwn yn cael ei adennill drwy'r Tâl Monitro Cydymffurfedd Blynnyddol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9